Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru | Mental Health Review Tribunal for Wales

MHRTW 18A

# CANLLAWIAU I GWBLHAU EICH FFURFLEN 'FFURFLEN TYNNU CAIS YN ÔL I'R TRIBIWNLYS'

Os yr ydych yn newid eich meddwl ynglŷn â pharhau â'ch cais i'r Tribiwnlys, gallwch ofyn i'w dynnu'n ôl. Dylai eich cais gael ei wneud yn ysgrifenedig unai gennych chi eich hun neu eich cyfreithiwr os yr ydych wedi dewis cynrychiolaeth gyfreithiol. Dyw'r ffaith eich bod wedi dewis tynnu'n ôl ddim yn effeithio ar eich hawliau i ymgeisio yn y dyfodol. Os yr ydych wedi eich hatgyfeirio i'r Tribiwnlys, yna ni ellir tynnu'r atgyfeiriad yn ôl.

**Os nad oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol**, dylech gwblhau ffurflen MHRTW18. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi'r ffurflen mor gynhwysfawr ag y gallwch. Yn benodol rydych angen rhoi rhesymau pam nad ydych yn dymuno i'ch cais barhau. Bydd adran weinyddiaeth y Tribiwnlys wedyn yn trefnu i un o aelodau cyfreithiol y panel tribiwnlys ddod atoch i drafod eich cais i dynnu'n ôl. Pwrpas hyn yn syml yw gwneud yn siŵr eich bod yn ymwybodol o'ch hawliau a'ch bod yn deall y broses yn eglur. Bydd eich cais yn aros yn fyw hyd nes mae'r Tribiwnlys yn cytuno i dynnu eich cais yn ôl.

**Os oes gennych gynrychiolydd cyfreithiol**, bydd angen i chi gysylltu â nhw i ddatgan eich bod yn dymuno tynnu eich cais yn ôl. Bydd eich cynrychiolydd cyfreithiol yn trefnu siarad gyda chi am oblygiadau tynnu cais yn ôl a'ch hawliau cyfreithiol os wnewch hynny. Bydd y cynrychiolydd cyfreithiol yn eich cynorthwyo i gwblhau eich rhan chi o'r ffurflen gais gan hefyd gwblhau eu rhan nhw cyn ei ddychwelyd i'r Tribiwnlys. Bydd y cais wedyn yn cael ei ystyried gan naill ai'r Llywydd neu Ddirprwy Lywydd y Tribiwnlys fydd yn penderfynu ei dderbyn ai peidio. Hyd nes y bydd y cais yn cael ei dderbyn bydd y trefniadau ar gyfer eich tribiwnlys yn aros yr un peth.

**Beth sydd angen ei wneud unwaith mae'r ffurflen wedi ei chwblhau :**

- Gallwch ei bostio i'r cyfeiriad ar y ffurflen
- Gallwch ei e-bostio
- Gallwch ei ffacsio
- Gallwch ei roi i'ch cynrychiolydd cyfreithiol neu eiriolwr annibynnol iechyd meddwl os oes un gennych
- Gallwch ofyn i aelod o'r staff nyrsio i'w roi i Weinyddwyr y Ddeddf Iechyd meddwl yn yr ysbyty. Byddant hwythau wedyn yn ei hanfon i mewn i ni ar eich rhan.
- Os nad ydych yn yr ysbyty, gallwch roi'r ffurflen i'ch Cydgysylltydd Gofal a fydd yn gallu anfon y ffurflen ymlaen i Swyddfa'r Tribiwnlys ar eich rhan.

  Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach yna cysylltwch â Swyddfa Tribiwnlys ar 0300 025 5328.